OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2544

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

**Diwygio Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

**4.**—(1) Diwygir Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 yn y diffiniad o "tystysgrif cofnod troseddol briodol"—

(a) ar ôl "adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno";

(b) ar ôl "adran 113A o Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant o fewn yr ystyr a roddir i "*suitability information relating to children*" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno"; ac

(c) hepgorer y geiriau "ar yr amod, yn y ddau achos, pan fo'r person yn dal swydd a grybwyllir yn adran 113C(5) o Ddeddf yr Heddlu 1997, fod y dystysgrif hefyd yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 113C(1) o'r Ddeddf honno;".

(3) Yn yr Atodlen, yn is-baragraff (d) o baragraff 4, yn lle'r geiriau "yn gwneud gwaith" rhodder "wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**2**) neu'n gwneud gwaith,".

(**1**) O.S. 2003/3234 (Cy.314), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/947 (Cy.81), O.S. 2005/2929 (Cy.214).

(**2**) 2006 p.47. Mae O.S. 2009/1797 yn pennu, at ddibenion adran 3(2)(b), bod y rhestr a gynhelir o dan Erthygl 6(1)(a) o Orchymyn Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2007 (O.S. 2007/1351 (G.I. 11)) (h.y. y rhestr wahardd ar gyfer plant yng Ngogledd Iwerddon) yn rhestr sy'n cyfateb i'r rhestr wahardd ar gyfer plant a sefydlwyd ac a gynhelir o dan adran 2(1)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.